

Y COMISIWN MAWR


Cyn cael ei gymryd i fyny i'r nefoedd, gwnaeth Iesu roi un gorchymyn olaf i'w ddisgyblion. "Ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi," meddai, "a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. A dysgwch nhw i wneud bopeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi." Ar ôl dweud hyn, gwnaeth Iesu addo i'r disgyblion y byddai gyda nhw bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod.



"O hynny ymlaen aeth y disgyblion allan i bregethu ym mhobman. Roedd yr Arglwydd yn gweithio gyda nhw, ac yn cadarnhau fod y neges yn wir drwy'r arwyddion gwyrthiol oedd yn digwydd yr un pryd."

Marc 16:20

Chwilia am y saith peth gwahanol yn y llun isaf.



Yn y sgwâr uwchben, gwna lun yn dangos sut faset ti'n medru dweud wrth ffrind am Iesu. Ceisia ddweud y newydd da am Iesu wrth rywun arall yn ystod yr wythnos.



Pa orchymyn wnaeth Iesu roi i'w ddisgyblion?

Gwers 28

Y Comisiwn Mawr

Testun y Beibl: Mathew 28:16-20

Adnod allweddol: Mark 16:20

Pwrpas: Bod y plant yn deall y Comisiwn Mawr \ y Dasg fawr roddodd Iesu i'r disyblion: i fynd i'r holl fyd i ddweud y newyddion da am Iesu wrth bawb.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer y plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp ynghyd a'r amser sydd ar gael.

I Gwers

Cyn gweithio ar y daflen liwio, dywedwch wrth y plant am y gorchymyn olaf wnaeth Iesu ei roi i'r disgyblion.

Wnaeth Iesu alw ar yr un-deg-un disgybl (roedd Jwdas wedi crogi ei hun) ac fe wnaethon nhw fynd i Galilea. Pan wnaeth y disgyblion weld Iesu dyma nhw yn ei addoli ond roedd rhai yn amau. Dwedodd Iesu wrth y disgyblion: "Dw i wedi cael awdurdod llwyr i reoli popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear." Wedyn dyma fo'n gofyn iddyn nhw fynd i bob gwlad i:

- wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion iddo fo
- i'w bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân
- i'w dysgu nhw i wneud popeth roedd Iesu wedi ei ddweud wrthon nhw.

Wedyn wnaeth Iesu addo i'r disgyblion y byddai o gyda nhw bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod.

II Gweithgareddau

1 Yr adnod allweddol:

a) Darllenwch yr adnod yn uchel.

"O hynny ymlaen aeth y disgyblion allan i bregethu ym mhobman. Roedd yr Arglwydd yn gweithio gyda nhw, ac yn cadarnhau fod y neges yn wir drwy'r arwyddion gwyrthiol oedd yn digwydd yr un pryd." Marc 16:20

b) Eglurwch y geiriau allweddol

“O hynny ymlaen aeth y disgyblion allan ...” – Gwnaeth y disgyblion ufuddhau i orchymyn Iesu a mynd.

“... i bregethu ymhobman.” – Gwnaethon nhw fynd i bob gwlad a dweud wrth y bobl am Iesu.

“Roedd yr Arglwydd yn gweithio gyda nhw ...” – Doedd y disgyblion ddim ar ben eu hunain. Roedd yr Arglwydd Iesu yn gweithio efo nhw.

“... yn cadarnhau fod y neges yn wir ...” – Yr Arglwydd Iesu ydy’r un sy’n cadarnhau geiriau’r Beibl.

c) Helpwch y plant i ddysgu’r adnod.

2 Cwestiynau adolygu i’r plant.

- Beth oedd y gorchymyn wnaeth Iesu ei roi i’w ddisgyblion?
- Beth wnaeth y disgyblion wneud ar ôl i Iesu gael ei gymryd i’r nefoedd?
- I ble wnaeth Iesu anfon y disgyblion?
- Beth wnaeth Iesu ei addo iddyn nhw?
- Pwy oedd yn gweithio efo’r disgyblion?

III Diwedd glo

Mae’r gorchymyn wnaeth Iesu roi i’r disgyblion yn dal yn wir heddiw. Os wyt ti yn un o’i ddisgyblion, rwyd ti’n medru bod yn ufudd i Iesu. Dywed wrth bobl eraill am y Gwardwr a dywed beth mae Iesu yn ei wneud yn dy fywyd di fel un o’i blant. Fel hyn, rwyd ti yn medru gwneud y Dasg Fawr mae Iesu eisiau i ti ei wneud.